monmouthshire
sir fynwy

Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2022

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 21ain Gorffennaf, 2022 at 2.00 pm, Council Chamber - Council Chamber

# AGENDA

Cynhelir gweddïau cyn y cyfarfod Cyngor am 13.50pm. Mae croeso i bob aelod ymuno â'r Cadeirydd ar gyfer hynny os ydynt yn dymuno gwneud hynny

.

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2022** | 1 - 8 |
| 3. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 4. | **Cwestiynau Cyhoeddus** | |
| 5. | **Cyhoeddiadau y Cadeirydd** | 9 - 10 |
| 6. | **Cyhoeddiadau Aelodau Cabinet** | |
| 6.1. | **Cynghorydd Sir Catherine Fookes, Aelod Cabinet dros Gydraddoldeb ac Ymgysylltu – Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi** | |
| 6.2. | **Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd – Mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur** | |
| 7. | **AMSERIAD CYFARFODYDD Y CYNGOR** | 11 - 14 |
| 8. | **Cynigion i'r Cyngor** | |
| 8.1. | **Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Jill Bond** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cynnig Argyfwng mewn Costau Byw**<br><br>Mae ein preswylwyr yn wynebu argyfwng mewn costau byw. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, dywedodd 88% o oedolion ym Mhrydain Fawr y bu cynnydd yn eu costau byw ym mis Mai 2022, oherwydd amrywiaeth o ffactorau yn cynnwys cynnydd mewn chwyddiant, cynnydd mewn prisiau ynni a chynnydd yn nhrethi'r llywodraeth. Ar gyfartaledd bydd aelwydydd Cymru o leiaf £600 yn waeth eu byd eleni yn ôl adroddiad gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.<br><br>Bu costau byw yn cynyddu ar draws y Deyrnas Unedig ers dechrau 2021. Ym mis Ebrill 2022 cyrhaeddodd chwyddiant y lefel uchaf a gofnodwyd ac mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif ei fod yn awr yn uwch nag ar unrhyw amser ers tua 1982, gan effeithio ar ba mor fforddiadwy yw nwyddau a gwasanaethau ar gyfer aelwydydd.<br><br>**Mae'r Cyngor yn nodi:**<br><br>Bod yr argyfwng costau byw yn fater allweddol i ni yng Nghyngor Sir Fynwy, mewn sefyllfa o ffactorau ariannol ar lefel genedlaethol a rhyngwladol, tebyg i'r rhyfel yn Wcráin.<br><br>Yr angen i ni fel awdurdod lleol sicrhau y caiff ein preswylwyr eu cefnogi yn ystod y cyfnodau cynyddol anodd hyn, yn arbennig wrth i ni fynd i'r hydref a'r gaeaf.<br><br>Effaith anghymesur yr argyfwng ar aelwydydd incwm isel, fydd yn gwario cyfran uwch o'u hincwm na'r cyfartalog ar ynni a bwyd ac y bydd cynnydd mewn prisiau felly'n effeithio mwy arnynt, gan arwain at lai o incwm gwario.<br><br>Y gwaith a wnawn ar hyn o bryd fel cyngor ym mhob adran i gefnogi ein preswylwyr mwyaf bregus, yn cynnwys:<br>• Y taliadau £150 i'r preswylwyr hynny sy'n byw ym mandiau A i D y Dreth Gyngor<br>• Taliadau dewisol o £150 i aelodau mwyaf bregus ein cymunedau<br>• Cefnogi elusennau fel Cyngor Ar Bopeth a MIND a all helpu rhai o aelodau mwyaf bregus cymdeithas<br>• Cyfeirio preswylwyr at ble gallant gael help drwy ein hymgyrchoedd gwybodaeth<br><br>**Mae'r Cyngor yn penderfynu:**<br><br>Ein bod yn ymrwymo ein hunain fel Cyngor i weithio gyda'n teuluoedd a'n cymunedau, gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddarparu cymorth ymarferol i'r rhai sydd fwyaf ei angen.<br><br>Ein bod yn sicrhau y byddwn yn parhau i weithredu mewn dull cydlynus i fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. | |
| **8.2.** | **Cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sir Richard John**<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn:<br>Gwrthwynebu unrhyw gynigion gan Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i israddio'r gorsafoedd ambiwlans yn Nhrefynwy a | |

| | | |
|---|---|---|
| | Chas-gwent drwy dynnu'r Cerbydau Ymateb Cyflym.<br>Galw ar uwch swyddogion Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i fynychu'r pwyllgor dethol perthnasol ar gyfer craffu cyn-penderfyniad o'u cynigion adolygu roster genedlaethol cyn i Lywodraeth Cymru eu cymeradwyo a'u gweithredu. | |
| **9.** | **Cwestiynau gan Aelodau** | |
| **9.1.** | **Gan y Cynghorydd Sir Fay Bromfield i'r Cynghorydd Sir Catrin Maby, Aelod Cabinet dros newid Hinsawdd a'r Amgylchedd**<br><br>A wnaiff yr Aelod Cabinet roi diweddariad ar gamau i fynd i'r afael â goryrru yn Llantrisant? | |
| **9.2.** | **Gan y Cynghorydd Sir Richard John i'r Cynghorydd Sir Rachel Garrick, Aelod Cabinet dros Adnoddau**<br><br>Pa asesiad a wnaeth y weinyddiaeth am effaith ailbrisiad arfaethedig Llywodraeth Cymru o'r dreth gyngor ar breswylwyr Sir Fynwy? | |
| **10.** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf – 22 Medi 2022** | |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr Sir: | Laura Wright<br>Tony Kear<br>Catrin Maby<br>Jan Butler<br>Ian Chandler<br>Sara Burch<br>Alistair Neill<br>Su McConnel<br>Mary Ann Brocklesby<br>Fay Bromfield<br>Jane Lucas<br>Emma Bryn<br>Peter Strong<br>Meirion Howells<br>Paul Griffiths<br>Jackie Strong<br>Rachel Garrick<br>Maria Stevens<br>Steven Garratt<br>Angela Sandles<br>Ben Callard<br>John Crook<br>Tomos Davies<br>Dale Rooke<br>Catherine Fookes<br>Sue Riley<br>Jayne McKenna<br>Jill Bond<br>Louise Brown<br>Lisa Dymock<br>Tony Easson<br>Christopher Edwards<br>Bob Greenland<br>Martyn Groucutt<br>Simon Howarth<br>Richard John<br>David Jones<br>Penny Jones<br>Malcolm Lane<br>Phil Murphy<br>Paul Pavia<br>Maureen Powell<br>Frances Taylor<br>Tudor Thomas<br>Armand Watts<br>Ann Webb |

# Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a’r cysylltiadau sydd gennym â’n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.